



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# **Adolygiad Gwerth am Arian o Drefniadau Ariannu Craidd Llywodraeth Cymru i Ddatblygu Mentrau Cymdeithasol**

## **Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru**

Meirion Thomas a Eva Trier

## Cynnwys

|                                                                                     |           |
|-------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Crynodeb Gweithredol.....</b>                                                    | <b>i</b>  |
| <b>1. Cyflwyniad .....</b>                                                          | <b>1</b>  |
| 1.1 Nodau ac amcanion .....                                                         | 1         |
| 1.2 Y Gwaith a wnaed .....                                                          | 2         |
| 1.3 Cyd-destun a dull .....                                                         | 3         |
| <b>2. Adolygiad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd WSEC .....</b>        | <b>5</b>  |
| 2.1 Economi .....                                                                   | 5         |
| 2.2 Effeithlonrwydd .....                                                           | 7         |
| 2.3 Effeithiolrwydd.....                                                            | 10        |
| <b>3. Casgliadau am y gwerth am arian a gafwyd.....</b>                             | <b>13</b> |
| <b>4. Prif faterion ac argymhellion .....</b>                                       | <b>14</b> |
| <b>Atodiad 1: Y Cyfweliadau a gynhaliwyd .....</b>                                  | <b>17</b> |
| <b>Atodiad 2: Dibenion cymorth grant arian craidd WSEC i Lywodraeth Cymru .....</b> | <b>18</b> |
| <b>Atodiad 3: Camau, Dangosyddion a chyflawniadau WSEC.....</b>                     | <b>19</b> |

## Crynodeb Gweithredol

Nod y gorchwyl sy'n sail i'r adroddiad hwn yw gwneud adolygiad gwerth am arian o'r trefniadau ariannu craidd i Gwmnïau Cymdeithasol Cymru (SFW), Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTAW), a Chlymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru (WSEC). Bydd gofyn i'r adolygiad gyfrannu at y rhesymeg dros seilio unrhyw drefniadau ariannu wedi 2012/13 drwy gynnig tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau.

Ar gais Llywodraeth Cymru, gwnaed yr adolygiad mewn dau gam. Y cam cyntaf yw adolygu'r gwerth am arian a gafwyd gan gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Glymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru, neu WSEC, sef testun yr adroddiad hwn.

Bu CM International yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol yr adolygiad gan fanteisio i'r eithaf ar y profiad a'r wybodaeth a oedd ar gael yn barod. Yn ogystal, gwnaeth CM International ddefnydd llawn o'r adnoddau, y deunydd ymchwil a'r data a oedd yn bodoli'n barod a chynhaliodd gyfweiliadau manwl gyda 6 o aelodau Bwrdd WSEC, 4 corff rhanddeiliad a 3 o swyddogion Llywodraeth Cymru.

I asesu'r gwerth am arian a gafwyd, defnyddiwyd dull strwythuredig sy'n ymgorffori cysyniadau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd er mwyn cyrraedd casgliad systematig a threiddgar.

***Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd a'r dadansoddiad a wnaed, rydym yn dod i'r casgliad na lwyddodd Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru, yn gyffredinol, i gyflwyno'r gwerth am arian y gallai Llywodraeth Cymru yn rhesymol fod wedi'i ddisgwyl gan ei chefnogaeth ariannol ac fel arall yn ystod y cyfnod 2010 – 2012.***

Hoffem dynnu sylw at y ffaith nad ydym wedi gwneud archwiliad ariannol o'r mudiad nac wedi cynnal unrhyw brofion cyfrifo.

Gellir crynhoi'r rhesymeg sy'n sail i'r casgliad hwn yn gryno fel a ganlyn:

1. Mae cost yr ymyriad yn union fel ag y cyllidwyd yn y llythyr dyfarnu grant gwreiddiol h.y. £700,000 dros y cyfnod 3.5 mlynedd hyd at fis Mawrth 2013.
2. Ni chafodd symiau ychwanegol o gyllid o unrhyw werth eu hysgogi i weithgareddau WSEC – er bod partneriaethau a chydweithio a chyrrff eraill bron yn sicr wedi lleihau costau mewn rhai gweithgareddau.
3. Bu'r llinellau gwariant yr adroddwyd arnynt yn dra thebyg yn fras i'r rheiny y gellid bod wedi'u disgwyl yn seiliedig ar y cynlluniau a amlinellwyd yng nghynllun datblygu gwreiddiol WSEC a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd mewn cyllidebau, cyfrifon a gwybodaeth fonitro.
4. Mae cyllido ar gyfer gorwariant yn o leiaf ddwy o'r blynnyddoedd dan sylw yn anarferol ac yn codi rhywfaint o bryder. Croesewir yr Is Bwyllgor Cyllid sydd yn ei le erbyn hyn, er mai gwell hwyr na hwyrach.
5. O safbwynt y gweithgareddau a gyflawnwyd yn erbyn y gweithgareddau a gynlluniwyd, mewn un maes pwysig, sef nifer yr aelodau a recriwtiwyd, mae WSEC gryn dipyn o flaen ei darged – tua 260 o'i gymharu â tharged o 172 yn 2010-2013.
6. Mae mwyafrif y dangosyddion perfformiad eraill y tu ôl i'w targed o safbwynt naill ai amseru neu raddfa – neu'r ddau, i raddau na ellid fod wedi'u disgwyl yn rhesymol gan Lywodraeth Cymru yn y fan hon.
7. Un diffyg amlwg o fewn y dangosyddion perfformiad yw unrhyw beth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â mewnbwn WSEC i ddatblygu polisi ac ymarferion ymgynghori. Byddem wedi disgwyl gweld rhywbeth fan hyn er ei fod yn cael ei dderbyn yn amlwg

gan aelodau bwrdd a rhanddeiliaid WSEC yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru fod hwn yn faes allweddol lle y gellid disgwyl dangos gwerth am arian.

8. O safbwynt rôl WSEC yn darparu 'llais' effeithiol i fenter gymdeithasol a mentrau cymdeithasol ledled Cymru mae'n rhaid i ni ddod i'r casgliad nad yw WSEC yn cyflawni ei photensial na chwaith yn cwrdd â'i disgwyliadau ei hun yn y maes gweithgaredd pwysig hwn.

Fel rhan o'r cwmpas gwaith y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, gofynnwyd i ni adolygu sut mae'r cyrff a gefnogir yn cyd-fynd â pholisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru i'r dyfodol, a, lle'n briodol, gwneud argymhellion ynghylch cefnogaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i'r cyrff dan sylw.

***Yn seiliedig ar ein gwaith, rydym o'r farn fod nodau ac amcanion penodol WSEC fel ag y'u cyfansoddwyd, yn dal i fod drwyddi draw yn berthnasol ac addas.***

Mae ansawdd a chwmpas y mewnbwn polisi a dylunio gwasanaeth a ddisgwylir gan gorff o'r fath wedi cynyddu hefyd wrth i fwy o gyrff cyhoeddus a chomisiynwyr a rheolwyr cyflenwi gwasanaeth fynd i'r afael â chynllunio a gweithredu ffyrdd modern o gyflwyno 'dull cymysg' sy'n cynnwys gweithgareddau menter gymdeithasol posibl.

1. ***Argymhellwn fod angen ystyried y syniad o aelodaeth y corff ymhellach ac mewn ffordd newydd.***
2. ***Argymhellwn fod angen i WSEC ddatblygu eglurder am ei swyddogaeth a'i chylch gwaith a'r ffordd y mae'n clymu i mewn â chyrff eraill mewn cydweithrediad agos â chyrff seilwaith eraill yn cynnwys Canolfan Gydweithredol Cymru (WCC), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn ogystal â Chwmnïau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru.***
3. ***Argymhellwn fod angen ystyriaeth bellach i swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd.***
4. ***Argymhellwn y dylai'r Bwrdd ganolbwyntio'n bennaf ar gyfeiriad strategol y mudiad gan ddirprwyo materion rheoli (Adnoddau Dynol a chyllid) i is bwyllgorau ond gyda sesiynau Bwrdd 'melin drafod polisi' rheolaidd.***
5. ***Argymhellwn y dylai'r Bwrdd gael ei annog a'i gefnogi i ethol Cadeirydd sy'n meddu ar y weledigaeth a'r awdurdod i symud WSEC yn ei blaen heb gyfyngu ei hun i aelodaeth bresennol y Bwrdd neu i'r rhestr gyfredol o aelodau WSEC.***
6. ***Argymhellwn, os bydd angen newid y Prif Weithredwr, y byddai prawf o allu i rwydweithio'n effeithlon ac effeithiol a gallu dal eu tir mewn trafodaethau a chylchoedd polisi o fantais.***
7. ***Argymhellwn y dylai Bwrdd WSEC ailymrwymo'i hun i genhadaeth WSEC a'i gwneud yn amlwg ei fod yn adfywio'r ymrwymiad hwn a'i 'angerdd' dros waith WSEC.***

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Nodau ac amcanion

Nod y gorchwyl sy'n sail i'r adroddiad hwn yw gwneud adolygiad gwerth am arian o'r trefniadau ariannu craidd i Gwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chlymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru (WSEC).

Bydd gofyn i'r adolygiad gyfrannu at y rhesymeg dros seilio unrhyw drefniadau ariannu wedi 2012/13 drwy gynnig tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau.

Amcanion penodol yr adolygiad<sup>1</sup> yw cynnal:

- Arfarniad cadarn a gwrthrychol o berfformiad y cyrff a gefnogwyd yn erbyn diffiniad gwerth am arian priodol;
- Dadansoddiad beirniadol o berfformiad y cyrff a gefnogwyd gan ddefnyddio'u cyflawniadau yn erbyn eu nodau eu hunain fel ag y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru;
- Dadansoddiad mesuradwy o'r cyrff a gefnogwyd i ganfod lefelau ychwanegedd o ganlyniad i'w trefniadau ariannu craidd; ac
- Adolygiad o sut mae'r cyrff a gefnogwyd yn cyd-fynd â pholisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru i'r dyfodol.

Ar gais Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd yr adolygiad mewn dau gam; i ddechrau, cynhaliwyd adolygiad o'r gwerth am arian a gafwyd gan gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Glymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru gyda dyddiad cau derbyn yr adroddiad ar 31 Awst 2012; ac yn ail, adolygiadau gwerth am arian Cwmnïau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru i'w cwblhau erbyn 30 Medi 2012.

Yn ychwanegol at hynny, er nad oedd yn ofyniad penodol o fanyleb y prosiect, tybiwyd, a chadarnhawyd mewn cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, y byddai angen argymhellion ynghylch cefnogaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i'r cyrff dan sylw.

***Mae'r adroddiad hwn felly yn rhoi'r dadansoddiad, y casgliadau a'r argymhellion sy'n gysylltiedig â Chlymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru yn unig.***

---

<sup>1</sup> Manyleb ar gyfer Adolygiad Gwerth am Arian Trefniadau Ariannu Craidd Llywodraeth Cymru i Ddatblygu Menter Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru BETS, Gorffennaf 2012

## 1.2 Y Gwaith a wnaed

Fel ag y gosodwyd yn y fanyleb i'r gorchwyl hwn, mae CM International wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cleient drwy gydol yr adolygiad gan wneud cymaint o ddefnydd o'r profiad a'r wybodaeth a oedd ar gael yn barod. Hefyd, er mwyn osgoi dyblygu ymdrech, gwnaeth CM International ddefnydd llawn o'r adnoddau, y deunydd ymchwil a'r data sy'n bodoli'n barod.

Dull CM International o ymdrin â'r dasg hon oedd defnyddio methodoleg pecyn gweithio tri cham:

### **1. Cwmpasu, adolygu dogfennau a datblygu methodoleg**

Roedd hyn yn cynnwys coladu ac adolygu dogfennau'n llawn ac at hynny nifer bychan o gyfweiliadau 'cwmpasu' gyda rheolwyr prosiect a swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y dogfennau a adolygwyd yn cynnwys adroddiadau monitro WSEC i Lywodraeth Cymru; cofnodion y Bwrdd; cyhoeddiadau ac adroddiadau a gyhoeddwyd gan WSEC.

Yn y cam hwn yn ogystal, paratowyd, profwyd a gweithredwyd rhestrau cyfweld, patrymau dadansoddi a threfniadau cyfweld strwythuredig gyda chyrff targed, aelodau'r bwrdd a rhanddeiliaid.

### **2. Ymchwil gwerth am arian**

Adolygwyd a dadansoddwyd data WSEC ac adroddiadau monitro WSEC a phapurau'r Bwrdd yn erbyn amcanion a gweithgareddau'r mudiad a chyllido<sup>2</sup>.

Holwyd 6 o aelodau Bwrdd presennol a diweddar WSEC ym mis Awst 2012. Yn anffodus, nid oedd Cadeirydd gwreiddiol WSEC na'r Prif Weithredwr cyfredol ar gael i'w cyfweld yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ychwanegol, holwyd cynrychiolwyr o 4 corff rhanddeiliad arall, yn cynnwys Cwmnïau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru. Yn olaf, holwyd dau Brif Swyddog Gweithredu o gyrff tebyg perthnasol yn Lloegr a'r Alban.

Ceir rhestr lawn o bob un o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

### **3. Dadansoddiad gwerth am arian**

Cafodd pob cyfweiliad, dadansoddiad data a'r adolygiad dogfennau eu dadansoddi a'u dehongli ymhellach wrth ddod i gasgliadau ynghylch y gwerth am arian a gafwyd.

Yn arbennig, defnyddiwyd dull strwythuredig o asesu gwerth am arian sy'n defnyddio cysyniad y 3E - economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd - gan felly ganiatáu dod i gasgliad systematig a threiddgar.

---

<sup>2</sup> Adolygwyd a dadansoddwyd dadansoddiad data ac adroddiadau monitro a chofnodion Bwrdd DTAW a SFW hefyd ond ni chawsant eu blaenoriathu; byddant yn adroddiad rhan 2 ddiwedd Medi 2012.

### 1.3 Cyd-destun a dull

Mae cael gwerth am arian a deilliannau ac effeithiau amlwg o wariannau cyhoeddus yn un o egwyddorion sylfaenol gweinyddiaeth gyhoeddus. Er mwyn gallu cadarnhau hyn, mae Llywodraeth Cymru'n adolygu ei hymrwymiaid ariannu yn rheolaidd, yn cynnwys, yn y cyd-destun hwn, i fudiadau yn y trydydd sector.

Diffinnir gwerth am arian yng Nghanllawiau'r Trysorlys<sup>3</sup> fel:

*'y cyfuniad gorau posibl o gost oes gyfan ac ansawdd (neu addasrwydd i'r diben) sy'n bodloni gofyniad y defnyddiwr. Mewn geiriau eraill, cael y deiliant gorau posibl o unrhyw lefel arbennig o fewnbwn.*

Mae angen cymhwyso a dehongli'r diffiniad hwn gan sylweddoli fod gwerth am arian yn dod o ddangosyddion mesuradwy ac o enillion polisi ansoddol.

Y tu hwnt i ddeilliannau eu swyddogaethau penodol, felly, mae gan y tri mudiad sy'n destun yr adolygiad hwn rôl i'w chwarae mewn cyfrannu at bolisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru i'r dyfodol.

Mae cyllid craidd i'r tri mudiad sy'n destun yr adolygiad hwn yn cael ei roi yng nghyd-destun y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol sy'n ymrwymo Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i:

*'greu amgylchedd sy'n annog mentrau cymdeithasol newydd a sefydlu cefnogaeth integredig a fydd yn help i greu mentrau cymdeithasol ffyniannus yng Nghymru.'*<sup>4</sup>

Mae i ba raddau y mae'r tri mudiad yn cyfrannu at yr ymrwymiad hwnnw gan Lywodraeth Cymru yn ddangosydd gwerth am arian allweddol felly.

O fewn cyd-destun lle mae nifer o gyrff yn bodoli sy'n cynnig cefnogaeth i fentrau cymdeithasol a chyrff sy'n anelu at greu gweithgareddau menter gymdeithasol, caiff cefnogaeth i fenter gymdeithasol yng Nghymru ei weld weithiau fel 'ystafell orlawn'. Mae mudiadau sydd yn yr 'ystafell' hon yn cynnwys Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, y WCVA a Chanolfan Gydweithredol Cymru, yn ogystal â'r tri mudiad sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn. Mae gan bob mudiad bwyslais a 'chynulleidfa darged' gwahanol er bod pob un yn ceisio ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau a rhanddeiliaid eraill o fewn maes cyffredinol mentrau cymdeithasol a gwaith y trydydd sector.

Bydd angen asesu gwerth am arian felly yn nhermau'r cyfraniad cyffredinol a wnaed gan y mudiadau i nodau ac amcanion Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru drwy gyflunio'n llwyddiannus eu cefnogaeth i rannu arfer gorau, codi ymwybyddiaeth a datblygu eu haelodau eu hunain gyda rôl bendant ac awdurdodol mewn cefnogi dysgu cydrhwng aelodau unigol a bod yn sail ac yn ddylanwad i bolisiau perthnasol Llywodraeth Cymru.

Mae cefnogi datblygiad a thwf mudiadau a phrosiectau unigol yn rhan bwysig o waith DTAW a SFW, er nad yw'n rhan o swyddogaeth WSEC.

<sup>3</sup> Gwella cysylltiadau ariannol gyda'r trydydd sector: Canllawiau i arianwyr a phrynwyr, Trysorlys Ei Mawrhydi (Mai 2006)

<sup>4</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009), Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol i Gymru 2009

Sefydlwyd amcanion Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru (WSEC) yn 2010, pan ddaeth cefnogaeth ariannol a chyingor ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer creu mudiad a fyddai'n gorff cenedlaethol i fentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mudiad a arweinir gan yr aelodau yw WSEC a chafodd gefnogaeth Llywodraeth Cymru i weithredu fel y llais torfol dros fenter gymdeithasol yng Nghymru. Mae aelodau WSEC yn cynnwys mentrau cymdeithasol, mudiadau seilwaith menter gymdeithasol eraill (yn cynnwys DTAW a SFW), busnesau preifat, elusennau a sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Yn benodol, yn achos Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru, amcanion craidd y mudiad a'r amcanion a osodwyd yn nyfarniad arian grant Llywodraeth Cymru oedd <sup>5</sup>:

1. *Adeiladu'r Glymblaid i fod yn gorff a reolir yn dda, ac a arweinir gan ei aelodau, i gynrychioli'r ystod lawn o fentrau cymdeithasol yng Nghymru.*
2. *Codi proffil menter gymdeithasol fel model busnes egniïol, a hyrwyddo gwerthoedd a manteision menter gymdeithasol i ystod eang o randdeiliaid.*
3. *Cynrychioli anghenion a barn mentrau cymdeithasol drwy fod yn llais cryf yn gyrru cyfleoedd i'r sector yn eu blaen.*
4. *Hwyluso mynediad i gefnogaeth ac adnoddau ar gyfer darpar fentrau cymdeithasol, rhai newydd a rhai sy'n bodoli'n barod a bod yn borth gwybodaeth ac yn lle i gyrchu crebwyll busnes.*

O dan bob un o'r prif amcanion hyn, cytunodd Llywodraeth Cymru ymhellach ag WSEC ar nifer o is-amcanion y bwriedid iddynt fod yn amcanion gweithredol i helpu cynnydd y corff newydd yn y dyddiau cynnar. Cynhwysir y 'Rhestr Ddibenion' fanwl yn Atodiad 2.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i gefnogi arian craidd WSEC i gyfanswm o £700,000 dros y tair blynedd lawn gyntaf fel a ganlyn:

|                             |          |
|-----------------------------|----------|
| 2009/10 (rhan o'r flwyddyn) | £100,000 |
| 2010/11                     | £200,000 |
| 2011/12                     | £200,000 |
| 2012/13                     | £200,000 |

---

<sup>5</sup> Llythyr Dyfarniad Arian Grant – Atodlen 1, Llywodraeth Cymru 27 Ionawr 2010



## 2. Adolygiad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd WSEC

Dyma eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn yr adolygiad hwn:

- **Economi** - cwestiynau am union gost y gweithgareddau yn cynnwys, faint gostiodd yr ymyriad; sut y penderfynwyd ar hyn; a ddefnyddiwyd yr arian ar gyfer y gweithgareddau a nodwyd a, pa gyllid ychwanegol a ysgogwyd?
- **Effeithlonrwydd** – yn ystyried a gyflwynwyd y gweithgareddau yn unol â'r disgwyliadau yn cynnwys, a gyflwynwyd y gweithgareddau a ariannwyd yn unol â'r cynllun; pa weithgareddau ychwanegol a gyflwynwyd; a oedd cost y cyflwyno yn ôl y disgwyl a, sut cafodd effeithlonrwydd ei fesur a'i fonitro?
- **Effeithiolrwydd** - yn rhoi'r sylw ar ddeilliannau megis, a arweiniodd y gweithgareddau a ariannwyd at y canlyniadau neu'r deilliannau disgwyledig; pa ddeilliannau ychwanegol a gafwyd; os o gwbl; a, sut yr uchafwyd yr effeithiolrwydd?

### 2.1 Economi

Mae'r pennawd hwn yn gofyn cwestiynau am union gost y gweithgareddau yn cynnwys, faint gostiodd yr ymyriad; sut y penderfynwyd ar hyn; a ddefnyddiwyd yr arian ar gyfer y gweithgareddau a nodwyd a, pa gyllid ychwanegol a ysgogwyd ?

Mae CM International wedi adolygu'r cyfrifon a'r cyllidebau a gynhyrchwyd gan weithrediaeth WSEC ac a drafodwyd gyda Bwrdd WSEC cyn eu cyflwyno fel rhan o drefniadau monitro arferol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw CM International wedi cynnal archwiliad neu brofion cyfrifo yn seiliedig ar yr wybodaeth hon ac nid yw wedi trafod y cyfrifon a'r cyllidebau gydag unrhyw un o staff neu weithrediaeth WSEC.

O safbwynt Llywodraeth Cymru mae ei ymyriad wedi costio yn ôl y gyllideb, h.y. grant o £200,000 yn 2011/2012 a swm tebyg yn cael ei ragamcanu ar gyfer 2012/2013 gan roi cyfanswm gwariant grant o £700,000 dros y cytundeb dyfarnu 4 blynedd gychwynnol. Rydym wedi cadarnhau mai'r rhain oedd y symiau a gynhwyswyd yn y cytundeb dyfarnu.

Mae'n amlwg hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi monitro cynnydd y gwariannau yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod ers dyfarnu'r grant ym mis Ionawr 2010.

Er yr ymddengys na wyrwyd rhyw lawer o'r llinellau a'r eitemau gwariant, rydym yn ymwybodol o rywfaint o ohebiaeth ynghylch trin rhai costau yn ôl disgrisiwn megis ffioedd ymgynghori a'r defnydd o'r cerdyn credyd corfforaethol ar gyfer eitemau cymharol fychan o wariant teithio a threuliau ar ran Prif Swyddog Gweithredol WSEC. Codwyd y materion hyn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses fonitro arferol.

Dylem nodi yma, yn ein cyfweiliadau gydag aelodau o'r Bwrdd yn ogystal â thrwy adolygu cofnodion y Bwrdd, i ni ddod yn ymwybodol o sion a oedd yn mynd o gwmpas am gamwario gan WSEC. Nid oedd aelodau'r Bwrdd yn siŵr ble y gallai'r straeon hyn fod wedi dechrau. Deallwn fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwiliad penodol i'r materion hyn ac nid ydynt yn rhan bellach o'n hadolygiad.

Dangosodd adolygiad o'r cyllidebau a osodwyd ar gyfer 2011/12 a 2012/13 ac a gytunwyd arnynt gan Fwrdd WSEC, er gwaethaf gweithredu ar gyllideb sefydlog – grant Llywodraeth Cymru ynghyd â swm bychan o grant ychwanegol ac incwm rhent (dim mwy na £19,000 y flwyddyn) – ym mhob blwyddyn, cyllidebwyd ar gyfer mynd dros y gyllideb.

Yn 2011/12 cyllidebwyd gwariant yn fwy nag incwm o £25,000 ac, mewn cyllideb ddiwygiedig (9+3 mis) a gynhyrchwyd ym mis Rhagfyr 2011 gostyngwyd y gorwariant i amcangyfrif o tua £23,000. Roedd hyn yn dod i or-redeg y gyllideb oddeutu 11%.

Yn 2012/13 (y flwyddyn gyfredol), amcangyfrifir y bydd y gwariant a gyllidebwyd yn gor-redeg tua £40,000 h.y. bron 20%<sup>6</sup>.

Fel ag y nodwyd cyllidebwyd y gor-redeg hwn wedi ystyried rhai elfennau bychain o gyllid ychwanegol a ysgogwyd, yn bennaf incwm rhent (is-osod gofod) a nawdd a ffioedd cynadleddau/arddangosfeydd. Fodd bynnag, ni ddaeth hyn i fwy na £19k yn 2011/12 a £6k yn 2012/13. Yn ogystal, derbyniwyd grant partneriaeth Trydydd Sector bychan o £4,000 y flwyddyn ym mhob blwyddyn ariannol.

O ddadansoddiad bras o'r cyfrifon, ymddengys fod gwariant i rai eitemau cyllideb wedi'i ymrwymo o flaen llaw, er enghraifft, cytundeb les swyddfa. Yn ogystal, mae'r aelod Bwrdd a enwebwyd yn Drysorydd yn cofio fod gwasanaethau rheoli ariannol allanol wedi'u comisiynu am £15,000 y flwyddyn er mai'r ffigur y cyllidebwyd amdano'n wreiddiol oedd £6,000 y flwyddyn. Yn yr un modd, cafodd gwasanaethau ategol fel TG eu contractio am brisiau yn uwch na'r gyllideb wreiddiol.

Dywedodd yr aelod Bwrdd a enwebwyd yn Drysorydd wrthym ei fod wedi gofyn am eglurder ar y cyllidebau, ond nid yw'n cofio cael eglurhad sylweddol gan y Prif Swyddog Gweithredol. Dywedodd wrthym ymhellach nad oedd ei awgrymiadau am reolaeth ariannol dynnach wedi cael croeso gan y tîm gweithredol.

Dengys adolygiad o gofnodion y Bwrdd fod y Bwrdd yn gyffredinol wedi trafod yr angen am incwm ychwanegol a llif arian ond nid ymddengys iddo drafod lleihau gwariant ac mae'n ymddangos mai dim ond i gasgliadau petrus y daeth ar sut i ddatrys y diffyg ariannol a gyllidebwyd.

Ymddengys mai'r prif syniad a drafodwyd oedd gofyn i Lywodraeth Cymru dalu'r taliadau grant chwarterol gryn dipyn ymlaen llaw i'r dyddiad dyledus er mwyn lliniaru'r problemau llif arian a oedd eisoes wedi codi erbyn dechrau 2012. Fodd bynnag, nid ymddengys fod y ffaith anochel na fyddai'r llyfrau'n mantoli wedi cael ei drafod o ddifrif. Yn y cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2012 argymhellodd y Cyfarwyddwr, yn gweithredu fel Trysorydd, raglen o ostwng gorbenion er ymddengys na chafwyd penderfyniad terfynol neu drafodaeth sylweddol ar y mater yn y Bwrdd hwn.

Un posibilrwydd amlwg sydd ar gael yw codi refeniw drwy godi ffioedd aelodaeth fel y mae mudiadau tebyg yn ei wneud<sup>7</sup>. Ymddengys o gofnodion y Bwrdd ac atgofion aelodau'r Bwrdd na chafodd mater ffioedd aelodaeth ei drafod yn eang yn y Bwrdd. Deallwn fod rhywfaint o amharodrwydd i ofyn i fentrau cymdeithasol dalu ffioedd aelodaeth pan oedd yr hinsawdd economaidd mor anodd. Deallwn hefyd fod yr ymarferwyr (h.y. rheolwyr mentrau cymdeithasol) a oedd ar y Bwrdd, yn ogystal â'r Prif Swyddog Gweithredol, yn teimlo'n gryf gan nad oedd WSEC wedi'i sefydlu i roi cyngor a chefnogaeth neu unrhyw wasanaethau pendant eraill i fentrau cymdeithasol, nad oedd achos cryf i godi ffi.

Mae nifer o aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid yn teimlo hefyd fod peth amheuaeth a fyddai mentrau cymdeithasol yn fodlon talu ffioedd aelodaeth, pe bai gofyn iddynt. Er bod ymdrech

---

<sup>6</sup> Ymddengys fod rhan o'r eglurhad am or-redeg a gyllidebwyd yn gorwedd mewn taliad rhent ymlaen llaw a wnaed yn 2010 o'r dyfarniad grant cychwynnol. Canlyniad hyn yw fod y rhent a roddwyd yng nghyfrifon pob blwyddyn yn eitem heb fod yn arian parod gan ei fod yn cael ei ryddhau o daliadau ymlaen llaw. Gallai hyn gyfrif am hyd at £15,000 o'r gor-redeg blyneddol.

<sup>7</sup> Er enghraifft, mae gan Social Enterprise Scotland tua 150 o aelodau sy'n talu ffioedd ar gyfartaledd o tua £250 y flwyddyn yr un.

recrwtio'r Prif Swyddog Gweithredol yn llwyddiannus mewn cofrestru aelodau ymarferwyr unigol ledled Cymru, nid yw'n amlwg beth fyddent yn ei gael am eu ffi aelodaeth. Mae'r manteision i'r aelodau gan WSEC yn dal yn aneglur a disgrifiodd un rhanddeiliad ac aelod o WSEC a holwyd, y strategaeth a ddilynwyd fel<sup>8</sup>

*'Mae WSEC wedi adnabod y cwsmeriaid (aelodau) ond nid yw wedi adnabod neu ddatblygu cynnyrch'*

Dywedodd y Cadeirydd presennol (fel ag yn Awst 2012) wrthym mai barn y Bwrdd yw codi ffioedd aelodaeth ar ôl 2012/2013 yn unig er nododd na fu hyd yma unrhyw sôn am y posibilrwydd hwn wrth aelodau. Mae'r nodyn canlynol o adroddiad monitro diweddaraf WSEC yn ategu'r farn hon:

*"Cafodd yr ystyriaeth o ffioedd aelodaeth i'r flwyddyn ariannol, 2012-2013 ei drafod yng Nghyfarfod Blyneddol WSEC a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2011. Cytunodd y cyfarfod na fyddid yn codi ffioedd aelodaeth am y flwyddyn 2011-2012. Byddai pwnc ffioedd aelodaeth yn eitem ar yr agenda yng Nghyfarfod Blyneddol 2012."*<sup>9</sup>

O ganlyniad, erys WSEC bron yn llwyr ddibynnol ar arian grant Llywodraeth Cymru gyda nemor ddim camau'n cael eu cymryd i leddfu'r sefyllfa honno.

Cyfarfu Is Bwyllgor Cyllid o Fwrdd WSEC am y tro cyntaf ddiwedd Awst 2012 ac mae hyn yn cynnig y potensial am fwy o dryloywder a thrylwyrdd mewn rheolaeth ariannol a chyllidebu nag a fu'n amlwg hyd yn hyn.

## 2.2 Effeithlonrwydd

Mae Effeithlonrwydd yn ystyried a gyflwynwyd y gweithgareddau yn unol â'r disgwyliadau yn cynnwys, a gyflwynwyd y gweithgareddau a ariannwyd yn unol â'r cynllun; pa weithgareddau ychwanegol a gyflwynwyd; a oedd cost y cyflwyno yn ôl y disgwyl a, sut cafodd effeithlonrwydd ei fesur a'i fonitro?

Un cafeat pwysig i'w wneud yma yw na all pob gweithgaredd gael eu mesur neu eu hadrodd fel dangosyddion meintiol. Fodd bynnag, mae WSEC wedi cael y fantais o restr o amcanion a dangosyddion perfformiad a thargedau cysylltiedig wedi'u gosod allan ar y dechrau yng Nghynllun Datblygu WSEC<sup>10</sup> ac yna adeiladwyd a chytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru fel sail i adrodd yn ôl a rheoli perfformiad.

Caiff y rhestr o ddangosyddion perfformiad a thargedau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru eu crynhoi yn Atodiad 3 gyda'r perfformiad hyd yma'n cael ei ddangos wrth ochr pob dangosydd perfformiad.

Bu Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad a gweithgareddau WSEC yn eithaf agos yn unol â'r dangosyddion hyn, gan dderbyn adroddiadau monitro chwarterol rheolaidd, mynychu cyfarfodydd Bwrdd fel arsyllwyr a chwrdd â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr nifer o weithiau. Rydym yn ymwybodol hefyd fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi codi cwestiynau a phryderon gyda'r Prif Weithredwr fel roedd angen ac wedi mynd ar ôl y materion hyn lle'n briodol; er enghraifft, wrth annog cynnydd ar benodi Swyddog Polisi.

---

<sup>8</sup> Er bod rhestr o fuddiannau tebygol i'r aelodau a phosiblwydd o strwythur ffioedd wedi eu gosod allan yng Nghynllun Datblygu gwreiddiol WSEC

<sup>9</sup> Adroddiad Monitro WSEC i Lywodraeth Cymru, Ionawr 2012 i Fawrth 2012

<sup>10</sup> Cynllun i Ddatblygu Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru, tua 2009/10

Wrth adolygu perfformiad WSEC yn erbyn y targedau a'r dangosyddion y cytunwyd arnynt, deawn i'r casgliad, er y gwnaed cyflawniadau a chynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd gweithgaredd allweddol, yn arbennig niferoedd aelodau, drwyddi draw mae'r gweithgareddau a gyflwynwyd gan WSEC hyd yma wedi disgyn yn is neu wedi bod y tu ôl i'r disgwyl mewn nifer o agweddau.

Fel ag y nodwyd, niferoedd aelodaeth oedd y prif or-gyflawniad. Y nifer targed o aelodau oedd 172 ac, yn yr adroddiad monitro diweddaraf, gyda 260 aed dros y targed hwn rhyw 150%. Fodd bynnag, aelodau a rhanddeiliaid yw'r rhain nad ydynt yn talu ffi a dywedodd aelodau'r Bwrdd wrthym ei bod yn eithaf hawdd dod yn aelod. Ni ofynnwyd i'r aelodau gyfrannu mewn nwyddau hyd yn oed neu fynychu digwyddiadau WSEC.

Mae'n amlwg fod y sylw hwn i reolaeth yn cael ei drafod yn rheolaidd ym Mwrdd WSEC gydag aelod-ymarferwyr yn arbennig yn teimlo, er mwyn bod yn llais credadwy i fentrau cymdeithasol yng Nghymru ei bod yn hanfodol cael aelodau i ymuno.

Mewn cyferbyniad, roedd aelodau eraill o'r Bwrdd a oedd yn tueddu'n fwy at bolisi yn teimlo'i bod yn angenrheidiol cael cynnyrch i'w gynnig i ddechrau a bod dylanwad gyda Llywodraeth Cymru a Gweinidogion yn elfen allweddol yng nghynnig WSEC. Dywedodd un aelod o'r Bwrdd, *"rhoddodd y CEO lawer o bwyslais ar yr ymgyrch recriwtio gychwynnol, ond canolbwyntiodd yn rhy hwyr ar beth allai'r aelodau ei ddisgwyl yn union gan WSEC"*.

Roedd meysydd gweithgaredd allweddol eraill yn araf yn symud ac maent ar ôl proffil, e.e.;

- ❑ Lansiodd y wefan ym mis Ionawr 2011 ond cyfyngedig oedd y deunydd a'r briffiau polisi oedd ar gael. Mae'r adroddiad monitro diweddaraf yn nodi fod bwriad i ailgynllunio ac ail-lansio'r wefan yn llwyr yn 2012.
- ❑ Ni chwblhawyd y strategaeth farchnata arfaethedig er bod hon wedi'i chynllunio ar gyfer 2011.
- ❑ Mae ymwybyddiaeth o weithgareddau Menter Gymdeithasol gydag ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch wedi'i gyfyngu i ran y Prif Weithredwr gyda'r rhaglen YES a gweithgareddau gydag un Sefydliad Addysg Uwch, sef y Drindod Dewi Sant. Mae gweithgareddau eraill yma wedi troi o amgylch y Prif Weithredwr yn cyfarfod nifer bychan o golegau AB unigol a chysylltiadau'n cael eu creu gan un aelod o'r Bwrdd â Phrifysgol Morgannwg.

Mae'n debyg mai'r oedi mwyaf allweddol a mwyaf dyrys mewn gweithgaredd fu'r amser a gymerwyd i benodi Swyddog Polisi a arweiniodd at oedi anochel i allu diweddarau'r wefan, cyfrannu at drafodaethau polisi'r sector a chyfrannu at ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Unwaith y penodwyd Swyddog Polisi cynyddodd y gweithgaredd yn syth a chafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai a holwyd ynghylch y gweithgaredd hwn<sup>11</sup>.

Yn olaf, roedd un astell weithgaredd bwysig, sef bod yn sianel ar gyfer barn, pryderon ac anghenion y sector mentrau cymdeithasol ac aelodau WSEC, yn mynd i gael ei chyflawni drwy gynnal cyfres reolaidd o grwpiau ffocws a fforymau rhanbarthol. Bu perfformiad yma yn arbennig o araf ac ar raddfa rhy fechan tan ddechrau 2012 pryd y gynhaliwyd 6 grŵp ffocws gyda dros 80 o gyfrangowyr.

Sylwodd un rhanddeiliad *"Roedd y grwpiau ffocws a gynhaliwyd ledled Cymru yn ddefnyddiol ond fe ddaethon nhw yn rhy hwyr yn y dydd."*

---

<sup>11</sup> Nid oes Swyddog Polisi mewn swydd ar hyn o bryd

O adolygiad o'r adroddiadau monitro, cofnodion y Bwrdd a chyfweliadau â rhanddeiliaid ac aelodau'r Bwrdd, ymddengys fod agwedd Prif Weithredwr WSEC at waith y mudiad yn un a oedd yn dibynnu ar ei egni, ei brofiad a'i enw da ei hun. Er enghraifft, gellir darlunio hyn drwy baragraff a ailadroddwyd mewn nifer o adroddiadau monitro fel a ganlyn:

*"Fel rhan o'i raglen ymweld â mentrau cymdeithasol a'r grwpiau ffocws, mae Prif Swyddog Gweithredol WSEC yn parhau i gasglu gwybodaeth gan yr aelodaeth gynyddol am y ffordd orau i geisio barn, ymgynghori a hysbysu ei aelodau. Yn ogystal â'r wefan, mae WSEC yn gwneud defnydd sylweddol o broffiliau Twitter a Facebook i geisio barn ar ystod o faterion sy'n berthnasol i'r sector ac ymgysylltu â nhw mewn perthynas â datblygiadau'r sector a newidiadau sylweddol ym mholisi WSEC."*

Ymddengys felly fod datblygu offerynnau a strategaethau i ddal a dadansoddi llais y sector mewn ffordd systematig, seiliedig ar bolisi ac effeithlon wedi bod yn llai o flaenoriaeth a chanolbwynt y sylw na'r cyswllt wyneb yn wyneb a'r rhyngweithio â mudiadau ac aelodau mentrau cymdeithasol ar draws Cymru.

Cyflawnwyd rhai gweithgareddau ychwanegol hefyd, nas rhagwelwyd yn y targedau.

Mewn nifer o achosion, roedd y rhain yn 'dod yn lle' gweithgareddu eraill a dargedwyd na chafodd eu gwneud neu cawsant eu gwneud mewn cydweithrediad â chyrff eraill gydag WSEC yn cael 'sedd ar y bwrdd' mewn rhai digwyddiadau a chyfleoedd proffil uchel yn hytrach na rhoi bod i'r digwyddiadau a'r gweithgareddau eu hunain.

Sylwn y gall gweithio gyda chynlluniau eraill a mynd 'ar eu cefnau' fod yn ffordd effeithiol iawn o hyrwyddo'r agenda mentrau cymdeithasol, ac felly llwyddo i agor y drws ar fuddsoddiad ac adnoddau na fyddai wedi bod ar gael fel arall o bosibl. Ond, gellir dadlau hefyd y gall gweithredu fel hyn yn rhy aml arwain at ddiffyg gwelededd a phroffil i'r mudiad, ei nodau a'i aelodau.

Yn ystod ein cyfweliadau ag aelodau'r Bwrdd dywedwyd wrthym, *"Roedd y gynhadledd yn Abertawe yn gyfle a gollwyd i sefydlu hunaniaeth WSEC. Y disgwyl oedd y byddai Canolfan Gydweithredol Cymru yn trefnu'r gynhadledd ond y byddai'r ffocws ar WSEC. Fodd bynnag, y canlyniad oedd i neges ddryslud gael ei chyfleu gydag WSEC yn cael ei wthio i'r cyrion"*.

Ym maes allweddol ymateb i ymgynghoriadau a materion polisi, nid oes targedau penodol neu ddangosyddion perfformiad yn eu lle. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod hyn yn cael ei ystyried yn un o brif elfennau gwaith WSEC ac mae'n cynrychioli disgwyliad gwerth am arian allweddol ar ran Llywodraeth Cymru sydd wedi'i godi'n aml gan y CEO mewn cyfarfodydd monitro.

Nid oes modd, o'r adroddiadau monitro neu gofnodion y Bwrdd, canfod yn gywir faint o ymgynghoriadau neu fewnbynnau polisi a wnaed gan WSEC. Fodd bynnag, mae'n debyg iawn y byddai'r rhain yn dod i lai na 10 dros y cyfnod 3 blynedd ers 2010. Dywedodd aelod o'r Bwrdd wrthym, pan benodwyd Swyddog Polisi canfuwyd *"nid oedd piblinell yn ei lle - roedd yn rhaid iddo ddechrau gwaith polisi o ddim."*

Yn hyn o beth, mae rhywfaint o feirniadaeth ar sefyllfa Llywodraeth Cymru yma oherwydd, ar ôl gweithio'n agos i annog a hwyluso datblygu WSEC, gallai mewnbwn mwy ymarferol neu 'gleient' gan swyddogion a Gweinidogion fod wedi bod yn ddefnyddiol. Dywedodd un aelod o'r Bwrdd, *"Doedden ni ddim yn meddwl fod digon o gyfathrebu amserol wedi bod rhwng y gweision sifil a'r mudiad o safbwynt sut i fynd trwy ochr bolisi pethau, er enghraifft, pa adrannau yr oedd angen eu hystyried yn y cylch gwaith polisi a'r cyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru"*.

Mae i ba raddau y mae cyfiawnhad i'r feirniadaeth yn dibynnu serch hynny ar ragdybiaeth y byddai wedi cael ei groesawu neu ei dderbyn gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr WSEC. Ceir tystiolaeth yn y dogfennau a adolygwyd gennym a chan atgofion swyddogion Llywodraeth Cymru, pan gynigiwyd y math hwn o fewnbwn o dro i dro, na chafodd dderbyniad gwresog bob amser neu ei weithredu arno. Mae pryder ychwanegol yn ymwneud â'r ffaith, er mwyn gwir gynrychioli mentrau cymdeithasol a bod yn 'gyfaill beirniadol' i brosesau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru, y byddai angen rôl ragweithiol yn hytrach nag adweithiol i WSEC.

## 2.3 Effeithiolrwydd

Mae Effeithiolrwydd yn rhoi'r sylw ar ddeilliannau megis, a arweiniodd y gweithgareddau a ariannwyd at y canlyniadau neu'r deilliannau disgwylidig; pa ddeilliannau ychwanegol a gafwyd; os o gwbl; a, sut yr uchafwyd yr effeithiolrwydd?

Gall yr atebion i'r cwestiynau hyn orgyffwrdd â'r cwestiynau am effeithlonrwydd. Fodd bynnag, yma rydym wedi ystyried y canfyddiadau a'r ymatebion a dderbyniom o'n hymchwili ansoddol a gafwyd gan y cyfweiliadau strwythuredig gyda rhanddeiliaid ac aelodau Bwrdd WSEC yn ogystal â'r cyfweiliadau cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

I WSEC, fel ag y nodwyd ynghynt, ni ellir mesur gwerth am arian drwy gynnwys a deilliannau meintiol. Mae hyn yn wir am nifer o resymau:

I ddechrau, ni chafodd ei sefydlu i gynghori mentrau cymdeithasol unigol. O ran hyn, mae rôl a chylch gwaith WSEC yn wahanol iawn i rai Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chanolfan Gydweithredol Cymru sy'n cydbwysu cyflwyno gwasanaeth â dylanwad a mewnbwn polisi. Yn ail, sefydlwyd WSEC gydag anogaeth, cyngor a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i fod yn sianel rhwng y llywodraeth a menter gymdeithasol a mentrau cymdeithasol ar draws Cymru. Yn drydydd, sefydlwyd WSEC fel offeryn i hybu menter gymdeithasol fel model busnes, i ddarparu weithredwyr menter gymdeithasol ac i'r rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, roedd WSEC angen llais cryf ac awdurdodol ar gyfer cyflwyno'r achos menter gymdeithasol.

Mae'r syniad fod WSEC yn cynnig llais cryf i'r cysyniad o fenter gymdeithasol a'r cyrff sy'n mabwysiadu'r model hwn yn codi'n aml yn y dogfennau a adolygwyd, o'r disgrifiadau o rôl a chenhadaeth WSEC a gyflwynwyd gan aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid eraill a sylwadau ac atgofion uwch swyddogion Llywodraeth Cymru.

Wrth geisio archwilio a deall ymhellach natur a nodweddion y syniad hwn o 'lais', awgrymwn yr elfennau canlynol sy'n cysylltu'n dda â'r amcanion cyffredinol a'r dangosyddion perfformiad y cytunodd WSEC arnynt gyda Llywodraeth Cymru:

1. **Llais y cwsmer:** Dylai WSEC ymgysylltu â menter gymdeithasol yng Nghymru, yn gwrando ac yn nodi'n eglur anghenion a phryderon y sector a'u trosi'n fewnbynnu polisi priodol;
2. **Llais sy'n werth gwrando arno:** Dylai WSEC, oherwydd ansawdd ei drafodaeth o fewn y sector a phrofiad ac arbenigedd ei Fwrdd a'i swyddogion, fod yn gwneud cyfraniad trylwyr, strategol ac adeiladol i bolisi a meddylfryd menter gymdeithasol fel model busnes;
3. **Llais sy'n uchel ei barch ac ystyrlon:** Dylai WSEC fod yn darparu llais cytbwys ond angerddol o fewn cylchoedd datblygu polisi a chyflwyno gwasanaeth, gan gymryd rôl ymgrychu, eiriol a chraffu fel y bo'n briodol.

Rydym wedi ystyried y dystiolaeth o safbwynt pob un o'r agweddau pwysig hyn o effeithiolrwydd.

### **1. Llais y cwsmer**

Mae WSEC wedi sefydlu nifer cymharol uchel o aelodau y tu hwnt i'r nifer a dargedwyd, fodd bynnag, fel ag y nodwyd, erys diffyg eglurder am y manteision sydd i'w cael o fod yn aelod a disgwyliadau'r aelodau wrth helpu WSEC i adlewyrchu eu problemau, pryderon a'u hanghenion i'r llywodraeth.

Rhoddwyd sylwadau ar yr agwedd hon yn gynt yn yr adroddiad a gellir ei darlunio ymhellach gan y sylwadau a wnaed gan aelod o'r Bwrdd a grynodd y pwynt hwn pan ddywedodd, *"roedd hi'n anodd cyfiawnhau pam y dylai mentrau cymdeithasol dalu ffioedd am un corff aelodaeth arall heb lawer mwy o eglurder am beth oedd ganddynt hawl iddo yn sgil y ffioedd hynny"*

Ymhellach, credai un rhanddeiliad (oedd hefyd yn aelod o WSEC) fod y rhan fwyaf o'r aelodau, gan na ofynnwyd iddynt am unrhyw gyfraniad ariannol neu mewn nwyddau, wedi ymuno ddim ond er mwyn cael *"tystysgrif arall ar y wal"*.

Er mwyn gweithredu fel sianel i farn aelodau WSEC i'r broses bolisi a chyflwyno gwasanaeth, roedd y dangosyddion perfformiad a'r targedau'n rhagweld cyfres o offerynnau cyfathrebu'n cael eu rhoi yn eu lle. Er i'r wefan gael ei lansio yn y diwedd yn 2011, mae'n amlwg na chafodd ei defnyddio'n llawn fel offeryn cyfathrebu ac ychydig o dystiolaeth sydd yna fod defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol wedi arwain at sgwrs ddwy ffordd rhwng WSEC a'i haelodau.

Nid oedd methodoleg neu strategaeth eglur ar gyfer casglu barn a phryderon yr aelodau. Fel ag y nodwyd uchod, pan benodwyd y Swyddog Polisi, *"nid oedd piblinell yn ei lle"*. Cydnabu nifer o aelodau'r Bwrdd hefyd mai dim ond un agwedd o'r elfen 'llais' oedd casglu barn; agwedd angenrheidiol arall oedd gallu cyfod a chyflwyno'r wybodaeth a'r dadansoddiad yn effeithiol, *"Roedd (y CEO) angen gwrthbwys addas ar y Bwrdd i godi syniadau a'u tywys yn weithgarwch cynhyrchol"*. Ni ddarparwyd hyn gan y Bwrdd nag o fewn staff tîm WSEC.

Bu Grwpiau Ffocws WSEC yn hir yn cael eu cynllunio ac felly maent yn rhan ddiweddar o weithgareddau WSEC. Yn sicr mae eu deilliannau'n ddefnyddiol er mae'n debyg eu bod angen eu mireinio gryn dipyn ochr yn ochr â dadansoddi polisi a meddwl ffres i ddod yn offerynnau o ansawdd uchel ar gyfer lloio a dylanwadu ar bolisi.

### **2. Llais gwerth gwranddo arno**

Sefydlwyd WSEC gyda Bwrdd a oedd yn cynnig cynrychiolaeth gref ar draws rhannau helaeth o weithgarwch menter gymdeithasol yng Nghymru. Yn arbennig, roedd ganddo gymysgedd da o ymarferwyr, aelodau a oedd yn ystyried polisi a chyrrff seilwaith menter gymdeithasol.

Fodd bynnag, drwyddi draw bu'r cyfeiriad strategol gan y Bwrdd yn wannach nag y byddid wedi disgwyl o ystyried profiad aelodau unigol y Bwrdd.

Wrth adolygu cofnodion Bwrdd WSEC, gellir cael yr argraff fod cyfarfodydd y Bwrdd yn ymwneud yn bennaf â threfnu busnes WSEC a goruchwylio gweithgareddau'r Prif Swyddog Gweithredol i ymateb i'r deilliannau a dargedwyd gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na gwneud cyfraniadau i drafodaethau polisi a mewnbynnau a datblygu meddwl ffres ac eiriolaeth i'w sylfaenydd a'r aelodau.

Dywedodd aelodau'r Bwrdd wrthym, *"roedd y mudiad yn canolbwyntio ar ddeilliannau yn hytrach na datblygu dealltwriaeth gyffredin o ble rydym yn mynd"*. Ymddengys mai dyma'r agraff a gafwyd gan rai rhanddeiliaid a swyddogion, er enghraifft *"Mae WSEC wedi ei chael yn anodd dod o hyd i gylch gwaith a rôl."*

Ymddengys y bu o leiaf ddau wendid yn hyn o beth.

I ddechrau, y ddibyniaeth drom ar y Prif Weithredwr i yrru'r mudiad ymlaen yn ei weithgareddau cyflenwi gyda chymharol ychydig gefnogaeth neu her gan y staff neu'r Bwrdd i effeithiolrwydd yr hyn roedd y mudiad yn ei gyflenwi. Dywedodd rhanddeiliaid ac aelodau'r Bwrdd wrthym, *"roedd yna ddisgwyliad mai'r Prif Weithredwr fyddai'r prif asiant cyflwyno"* a bod WSEC *"yn ddibynnol iawn ar ei Brif Swyddog Gweithredol"*. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth hon ar y CEO i gyflawni yn cael ei gymhlethu ymhellach gan deimlad nad oes gan ddeilydd y swydd *"y sgiliau iawn i redeg corff ymbarél."*

Yn ail, ceir teimlad fod y Bwrdd i ryw raddau wedi bod yn oddefol yn arfer ei rôl dorfol o safbwynt hyrwyddo nodau a rhaglen waith WSEC. Ceir prawf o un elfen allweddol o hyn wrth i strwythur is bwyllgor angenrheidiol i'r Bwrdd gael ei fabwysiadu, yn hwyr yn y dydd, i ganiatáu mwy o graffu a mewnbwn i feysydd allweddol dyletswyddau'r Bwrdd megis cyllid; adnoddau dynol a strategaeth tra'n rhyddhau'r Bwrdd cyfan i ganolbwyntio'n fwy ar drafodaethau polisi. Fel y dywedodd un aelod o'r Bwrdd, *"wrth edrych yn ôl, byddai bwrdd adnoddau dynol wedi bod yn ddefnyddiol"*

Mae'n amlwg y bu cryn faich ar amser ac ymdrechion gwirfoddol aelodau'r Bwrdd sy'n golygu fod nifer o faterion wedi gorfod cael eu delio â nhw'n gyflym, eu gohirio i ddyddiadau diweddarach neu eu dirprwyo yn eu cyfarwydd. *"Dim ond bob 2 fis roedd y Bwrdd yn cyfarfod, gyda chymaint o faterion i ddelio â nhw"*.

Yn ogystal â hyn, mae'n werth nodi y bu rhywfaint o wahaniaeth barn rhwng aelodau-ymarferwyr ac eraill ynghylch nifer o bwyntiau pwysig, y cyfeiriwyd atynt ynghynt, megis y canolbwyntio ar ennill aelodau a'r cwestiwn cysylltiedig o ffioedd aelodau. Yn crynhoi'r pwynt hwn, dywedodd aelod o'r Bwrdd fod *"rhywfaint o densiwn rhwng y disgwyliad o safbwynt polisi a'r disgwyliadau o lawr gwlad o safbwynt gweithredoedd mwy ymarferol"*.

### **3. Llais sy'n uchel ei barch ac ystyrllon**

Gyda Bwrdd cryf ac amrywiol da a Phrif Swyddog Gweithredol mawr ei fri a phrofiadol, credwn y gellid bod wedi disgwyl yn rhesymol y byddai llais WSEC yn un uchel ei barch ac ystyrllon.

Mae i ba raddau y bu'n effeithiol yn hyn o beth yn asesiad ansoddol a goddrychol felly ni ellir bod yn gadarn am y pwynt hwn. Felly mae angen i ni fyfyrto ar y sylwadau a roddwyd i ni yn ystod yr adolygiad hwn.

I ddechrau, soniwyd am y potensial am ddryswch a dyblygu rhwng y gwahanol gyrff seilwaith menter gymdeithasol a rhai cynrychioliadol yn cynnwys WSEC fel rhwystr i'r gwaith a'r 'llais' a gafwyd gan WSEC.

*"Roedd gennych 3 prif ddarparwyr cefnogaeth yn cystadlu yn yr un farchnad, dim gorfodaeth i ddatblygu dealltwriaeth strategol o sut mae'r gyrff gwahanol yn clymu gyda'i gilydd a sut i symud yr agenda yn ei blaen yng Nghymru."* **Aelod o Fwrdd WSEC**

*"Ni aeth y WCVA a'r WCC ati i rwystro WSEC ond roedd y ffaith eu bod yn bodoli yn rhwystr i WSEC"*. **Swyddog Llywodraeth Cymru**

*"Mae yna ddiffyg eglurder am ei rôl (WSEC); sy'n gwahodd cwestiynau am ddyblygu."* **Rhanddeiliad**

Yn ail, soniwyd fod yr agwedd a gymerwyd gan y CEO a'r rôl a gymerwyd gan y Bwrdd i hyrwyddo amcanion a gwaith WSEC wedi cyfrannu at fethiant i sefydlu hunaniaeth ac amlygrwydd digonol o fewn y sector ac ymhlith gwneuthurwyr polisi a swyddogion.



*“Wnaeth WSEC ddim datblygu niche na dangos beth allai ei werth ychwanegol fod yn ddigon buan.” Swyddog Llywodraeth Cymru*

*“Mae’n (WSEC) dibynnu ar ei CEO heb droi at y Bwrdd yn effeithiol fel llysgenhadon menter gymdeithasol – o ganlyniad nid yw wedi cael yr amlygrwydd angenrheidiol”. Rhanddeiliad*

*“Byddai Llywodraeth Cymru wedi disgwyl i WSEC fod yn ymgysylltu’n rheolaidd â Gweinidogion ynghylch cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd menter gymdeithasol Swyddog Llywodraeth Cymru.*

O’r crynodeb bras hwn o’r dystiolaeth am natur awdurdodol y llais a glywyd gan WSEC hyd yn hyn deawn i’r casgliadau canlynol:

I ddechrau, roedd diffyg swyddog polisi penodol am lawer o’r amser a CEO oedd ag enw da a phrofiad fel arloeswr a rheolwr ym myd menter gymdeithasol ond ychydig o brofiad polisi, yn golygu y byddai WSEC yn edrych yn anochel fel pe nad oedd ganddo ddigon o awdurdod a phwysau o safbwynt ansawdd a mewnbynnau yr oedd Llywodraeth Cymru ac eraill yn chwilio amdanynt. Yn arbennig o’i gymharu â’r mewnbynnau polisi a oedd yn cael eu darparu gan eraill yn y sector megis WCC, SFW a DTAW.

Er mwyn goresgyn problemau yn sgil ‘ystafell orlawn’ menter gymdeithasol Cymru a’r trydydd sector, byddai wedi bod angen i WSEC ddatblygu eglurder ynghylch y rheswm dros ei bodolaeth drwy ddangos sut y gallai gydgrynhoi a chyfosod amrywiaeth presennol y maes menter gymdeithasol a darparu cydlyniant a thrylwyrdd dadansoddol i’r darlun menter gymdeithasol yng Nghymru.

Yn ail, gellid dadlau fod y lleisiau cynrychioliadol ar y Bwrdd, yn bennaf, WCC, SFW, Cylch a DTAW yn darparu digon o ‘bwysau aelodaeth’ fel, gyda’r chwaraewyr allweddol eraill oedd hefyd yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd megis y Banc Elusen a Chwarae Teg, ac yn gysylltiedig ag ymarferwyr uchel eu parch, y gallent fod wedi cynhyrchu llais awdurdodol heb orfod troi at yr ymdrechion a gymerwyd i ennill ‘aelodaeth dorfol’ o ymarferwyr unigol ar draws y sector menter gymdeithasol yng Nghymru. Byddai cryfhau ei hunaniaeth a’i amlygrwydd fel hyn wedi rhoi i’r corff yr hygyrdd angenrheidiol i ddenu sail aelodaeth gref.

### 3. Casgliadau am y gwerth am arian a gafwyd

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a’r dadansoddiad a roddwyd yn adran 2 uchod, rydym yn dod i’r casgliad na fu i Glymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru, drwyddi draw, ddarparu’r gwerth am arian y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi’i ddisgwyl yn rhesymol gan ei chefnogaeth ariannol ac fel arall dros y cyfnod 2010 - 2012.

Unwaith eto hoffem dynnu sylw at y ffaith nad ydym wedi gwneud archwiliad ariannol o’r mudiad nac wedi cynnal unrhyw brofion cyfrifo. Yn ychwanegol, ni fu’r Prif Weithredwr na Chadeirydd gwreiddiol Bwrdd WSEC ar gael i’w cyfweled. Buom yn canolbwyntio ar asesu gwerth am arian yn seiliedig ar ganllawiau Trysorlys y DU sy’n cynghori asesiad ar ‘y gost oes gyfan a’r ansawdd i fodloni gofynion y defnyddwyr.’

Gellir crynhoi’n rhesymeg fel a ganlyn:

9. Mae cost yr ymyriad fel ag y cyllidebwyd yn y llythyr dyfarnu grant gwreiddiol h.y. £700,000 dros y cyfnod 3.5 mlynedd hyd at fis Mawrth 2013.
10. Ni ysgogwyd unrhyw symiau cyllid ychwanegol i weithgareddau WSEC - er bod partneriaethau a chydweithio â chyrff eraill bron yn sicr wedi lleihau costau mewn rhai gweithgareddau.

11. Bu'r llinellau gwariant a adroddwyd fwy neu lai yn unol â'r rheiny y byddid wedi'u disgwyl yn seiliedig ar y cynlluniau a amlinellwyd yng nghynllun datblygu gwreiddiol WSEC a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd mewn cyllidebau, cyfrifon a gwybodaeth fonitro.
12. Mae cyllidebu ar gyfer gorwario mewn o leiaf dwy o'r blynyddoedd dan sylw yn anarferol ac yn codi rhai pryderon ynghylch diffyg craffu a ddwysawyd gan ddiffyg amlwg o drafodaeth yn y Bwrdd ynghylch camau adferol i naill ai gynyddu incwm refeniw neu leihau gwariant gorbenion. Croesewir yr Is Bwyllgor Cyllid sydd bellach yn ei le, er gwell hwyr na hwyrach.
13. O safbwynt cyflawniad yn erbyn gweithgareddau a gynlluniwyd, mae nifer yr aelodau a recriwtiwyd gryn dipyn yn uwch na'r targed.
14. Mae mwyafrif y dangosyddion perfformiad eraill y tu ôl i'r targed o safbwynt naill ai amseru neu raddfa – neu'r ddau, i raddau na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol gan Lywodraeth Cymru yn y fan hon.
15. Un diffyg amlwg o fewn y dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt yw unrhyw beth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â mewnbynnau WSEC i ddatblygiad polisi ac ymarferion ymgynghori. Byddem wedi disgwyl gweld rhywbeth yma er ei bod yn amlwg fod aelodau Bwrdd WSEC, rhanddeiliaid yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru yn derbyn fod hwn yn faes allweddol lle y gellid disgwyl gorfod dangos gwerth am arian.
16. O ran rôl WSEC fel 'llais' effeithiol dros fenter gymdeithasol a mentrau cymdeithasol ar draws Cymru, mae'n rhaid i ni ddod i'r casgliad nad yw WSEC yn cyflawni ei photensial nac yn cwrdd â'i disgwyliadau ei hun yn y maes gweithgarwch pwysig hwn.

Oherwydd y prif resymau hyn felly, rydym yn dod i'r casgliad na fu i Glymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru, drwyddi draw, ddarparu'r gwerth am arian y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol.

## 4. Prif faterion ac argymhellion

Fel rhan o'r cwrpas gwaith y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, gofynnwyd i ni adolygu sut mae'r mudiadau a gefnogir yn cyd-fynd â pholisi ac amcanion Llywodraeth Cymru i'r dyfodol, a lle'n briodol gwneud argymhellion ynghylch cefnogaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i'r cyrff dan sylw.

Yn ein tyb ni, mae nodau ac amcanion penodol WSEC fel ag y'u cyfansoddwyd, yn dal i fod yn berthnasol a phriodol, yn gyffredinol, sef,

1. *Adeiladu'r Glymblaid i fod yn gorff a reolir yn dda, ac a arweinir gan ei aelodau, i gynrychioli'r ystod lawn o fentrau cymdeithasol yng Nghymru.*
2. *Codi proffil menter gymdeithasol fel model busnes egniol, a hyrwyddo gwerthoedd a manteision menter gymdeithasol i ystod eang o randdeiliaid.*
3. *Cynrychioli anghenion a barn mentrau cymdeithasol drwy fod yn llais cryf yn gyrru cyfleoedd i'r sector yn eu blaen.*

4. *Hwyluso mynediad i gefnogaeth ac adnoddau ar gyfer darpar fentrau cymdeithasol, rhai newydd a rhai sy'n bodoli'n barod a bod yn borth gwybodaeth ac yn lle i gyrchu crebwyll busnes.*

Mae'r 'agenda' menter gymdeithasol yng Nghymru wedi datblygu yn y blynyddoedd diwethaf yn arbennig o safbwynt rôl menter gymdeithasol yn y meysydd cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Gellid dadlau fod hyn yn gwneud bodolaeth corff gyda llais awdurdodol cryf, uchel ei barch yn bwysicach yn 2012/13 nag yr oedd yn 2009/10 pan sefydlwyd WSEC.

Fodd bynnag, mae ansawdd a chwmpas y mewnbynnau polisi a dylunio gwasanaeth y disgwyliad gan gorff o'r fath wedi cynyddu hefyd wrth i fwy o gyrff cyhoeddus a rheolwyr comisiynu gwasanaeth gymryd rhan mewn dylunio a gweithredu ffyrdd modern o gyflenwi 'dull cymysg' sy'n cynnwys y posibilrwydd o weithgarwch mentrau cymdeithasol.

***Argymhellwn mai un elfen allweddol o nodau ac amcanion WSEC a fyddai'n elwa o gael ystyriaeth bellach o'r newydd yw'r syniad o aelodaeth y corff.***

Fel ag y nodwyd yn yr adroddiad hwn, gwnaed ymdrech lew, a chafwyd llwyddiant, i ennill aelodau i WSEC; serch hynny, nid yw'r aelodau hyn yn talu unrhyw ffioedd ac nid ydynt yn derbyn unrhyw fanteision pendant, wedi'u diffinio a'u cyfleu'n eglur. Os yw WSEC am godi cyllid o'i aelodau bydd angen iddi felly roi cynnig cynnyrch cryf yn ei le i ddechrau - yn gysylltiedig â pholisi, dylunio gwasanaethau ac eiriolaeth - cyn gofyn i aelodau gyfrannu at y costau. Hyd yn oed wedyn, o ystyried profiad yr Alban a'r amcangyfrifon cychwynnol a wnaed gan WSEC yn y cyfnod cyn ei ffurfio, dim ond swm bychan o incwm, tua £50,000 mae'n debyg, fyddai'n cael ei gynhyrchu.

Felly mae ystyried y lle gorau i osod corff aelodaeth heb elfen o gyflenwi gwasanaeth yn gosod her i Fwrdd WSEC ond her, y credwn ni ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â hi yn y cam hwn o ddatblygiad y corff.

Ar y naill law, awgrymwn mai prin, os o gwbl, yw'r posibilrwydd, yn y cyd-destun Cymreig sydd ohoni, i WSEC ddechrau ei thrawsnewid ei hun yn gorff sy'n gallu cynnig gwasanaethau uniongyrchol un i un i aelodau fel rhan o ddatblygu menter gymdeithasol. Ar y llaw arall, mae nifer o aelodau'r Bwrdd eisoes yn cynrychioli, drwy eu mudiadau eu hunain, nifer fawr o aelodau perthnasol sy'n meddu ar gymwysterau a phriodweddau menter gymdeithasol ac felly'n dod â'r posibilrwydd o lais aelodau cryf i'r bwrdd.

Her allweddol beth bynnag fydd cael mwy o eglurder ar rôl a chwmpas WSEC ochr yn ochr â mudiadau seilwaith eraill sy'n cynrychioli rhannau o'r trydydd sector yng Nghymru.

***Argymhellwn fod angen i WSEC ddatblygu'r eglurder hwn mewn cydweithrediad agos â mudiadau seilwaith eraill*** yn cynnwys Canolfan Gydweithredol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ogystal â Chwmnïau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru. Er mwyn bod yn effeithlon yn ogystal ag effeithiol, bydd bob amser angen i'r gyrff hwn gydweithredu a chydweithio lle'n briodol, ond ar adegau bydd hi'n bwysig fod gweithgareddau a chynlluniau unigol yn cael eu cynnal fel y gall pob corff gadw'i hunaniaeth ei hun.

Bydd mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn yn gofyn am fwy o eglurder a thrylwyrdd gan Fwrdd WSEC. ***Argymhellwn felly fod angen ystyriaeth bellach i swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd.***

Fel ag y nodwyd, ymddengys fod llawer o sylw'r Bwrdd wedi'i gyfeirio at faterion 'rheolaeth' heb adael llawer o le i drafodaethau polisi a meddwl o'r newydd. Ond, mae'r agweddau hyn yn allweddol er mwyn symud WSEC yn ei flaen. ***Argymhellwn fod y Bwrdd yn canolbwyntio ar gyfeiriad strategol y mudiad*** yn y lle cyntaf gan ddirprwyo materion rheoli (AD a chyllid) i

is bwyllgorau a chael 'sesiynau melin drafod polisi' er mwyn cynorthwyo'r weithrediadiaeth i ddadansoddi adborth gan aelodau, gan gymryd swyddogaeth fel peiriant i syniadau a mewnbynnau polisi a helpu i ymateb i geisiadau am fewnbynnau polisi ac ymgynghori. Fel hyn, gall Bwrdd WSEC roi awdurdod a chryfder i 'lais' WSEC.

Rydym yn ymwybodol o'r ansicrwydd presennol ynghylch arweinyddiaeth y Bwrdd a sefyllfa'r Prif Weithredwr presennol. ***Argymhellwn y dylai'r Bwrdd gael ei annog a'i gefnogi i ethol Cadeirydd sy'n meddu ar y weledigaeth a'r awdurdod i symud WSEC yn ei blaen*** heb gyfyngu ei hun i aelodaeth bresennol y Bwrdd neu'r rhestr bresennol o aelodau WSEC. Yn y cyfnod hwn, mae arweinyddiaeth, awdurdod a gweledigaeth, yn fwy pwysig na phrofiad dwfn neu ran yn y byd menter gymdeithasol. Yn wir gallai fod o fantais ethol Cadeirydd heb syniadau ymlaen llaw neu 'baciau' o fewn y trydydd sector yng Nghymru a rhywun a all ymdeimlo â'r cyd-destun gwleidyddol y mae WSEC yn gweithredu'n anochel ynddo.

Ymhellach, o ystyried profiad cyrff seilwaith menter gymdeithasol eraill yn ogystal â chyrrff Busnesau Bach a Chanolig, ***argymhellwn, heb farnu ymlaen llaw ganlyniadau'r trafodaethau presennol yr ydym yn lled ymwybodol ohonynt, os bydd angen newid y Prif Weithredwr, y byddai prawf o allu i rwydweithio'n effeithlon ac effeithiol a gallu dal eu tir mewn trafodaethau a chylchoedd polisi o fantais.*** Dim ond os daw'r Bwrdd i'r casgliad fod WSEC yn mynd i fod yn gorff cyflenwi sy'n darparu gwasanaethau i'r sector ac unigolion mentrau cymdeithasol y byddai entrepreneur a rheolwr menter gymdeithasol profiadol yn briodol.

Yn olaf, ac efallai yn fwyaf pwysig, ***argymhellwn y dylai Bwrdd WSEC ailymrwymo'i hun (fel grŵp ac yn unigol) i genhadaeth WSEC a'i gwneud yn amlwg ei fod yn adfywio'r ymrwymiad hwn a'i 'angerdd' dros waith WSEC.*** Fel y dywedodd un rhanddeiliad am y syniad presennol sydd am WSEC a'i Fwrdd: "ychydig o angerdd sydd y tu ôl iddo...".

Mae'n debyg y bydd angen tystiolaeth weladwy o syniadau a briffiau polisi; aelodau Bwrdd WSEC yn siarad yn gadarnhaol am genhadaeth WSEC o lwyfannau cyhoeddus a phreifat a chyhoeddiadau am benodiadau newydd a gweithgareddau a gynlluniwyd gyda chefnogaeth Weinidogol lle'n briodol. Heb hyn, fel y dywedodd rhanddeiliad arall, gallai WSEC fod "yn gelain farw".

## **Atodiad 1: Y Cyfweiliadau a gynhaliwyd**

### **Swyddogion Llywodraeth Cymru**

- Duncan Hamer
- Karyn Pittick
- Iain Willox

### **Aelodau Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru**

- Bev Pold, Chwarae Teg a'r Cadeirydd Interim presennol
- Derek Walker, Cyfarwyddwr, Canolfan Gydweithredol Cymru
- San Leonard, Prif Swyddog Gweithredol, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru (SFW)
- Menna Jones, Antur Waunfawr
- Lis Burnett, Prifysgol Morgannwg (cyn Gadeirydd Interim)
- Mark White, Banc Elusen

### **Rhanddeiliaid eraill**

- Elwyn James, Ffatri'r Celfyddydau a Chadeirydd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTAW)
- Martin Price, Cadeirydd SFW ac aelod o Fwrdd DTAW
- Jane Lee, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Geoff Jones, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

### **Cyrff tebyg yn y DU**

- Craig Carey, CEO Social Enterprise UK
- Fraser Kelly, CEO Social Enterprise Scotland

## Atodiad 2: Dibenion cymorth grant arian craidd WSEC i Lywodraeth Cymru

### 1. Adeiladu'r Glymblaid fod yn gorff a reolir yn dda, ac a darweinig gan ei aelodau, i gynrychioli'r ystod lawn o fentrau cymdeithasol yng Nghymru.

- Recriwtio sail aelodaeth eang ac yna adolygu'r Aelodaeth gyfredol yn gyson a'r Strategaeth Aelodau Cyswllt a chyfleu unrhyw newidiadau.
- Ethol y Bwrdd drwy sefydlu gweithdrefnau eglur ac amrywio cyfansoddiad y Bwrdd.
- Cytuno ar strwythur a swyddogaethau'r staff, penodi, hyfforddi a datblygu'r staff.
- Dylunio'r offerynnau a'r systemau cyfathrebu.

### 2. Codi'r proffil menter gymdeithasol fel model busnes egniol, a hyrwyddo'r gwerthoedd a manteision menter gymdeithasol i ystod eang o randdeiliaid.

- WSEC i baratoi, lansio a chynnal ymgyrch fawr i godi ymwybyddiaeth
- Datblygu'r strategaeth marchnata a'r cyfryngau a'r cynlluniau gweithredu gyda'r Bwrdd.
- Rhoi'r strategaeth marchnata a'r cyfryngau ar waith.
- Datblygu'r brand, y llenyddiaeth a'r deunyddiau marchnata.
- WSEC i hybu diwrnod menter gymdeithasol fel rhan o wythnos fenter mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a mudiadau'r trydydd sector fel rhan o'r ymgyrch ymwybyddiaeth.
- WSEC i hyrwyddo cyflawniadau entrepreneuriaid ifanc lle bo modd mewn cyfleoedd gyda'r cyfryngau yn cynnwys y cylchgrawn *Trailblazers*.

### 3. Cynrychioli anghenion a barn mentrau cymdeithasol drwy fod yn llais cryf yn gyrru cyfleoedd i'r sector yn eu blaen.

- Sefydlu'r sianelau cyfathrebu gyda'r aelodau a dechrau ceisio barn ar faterion bras.
- Holi barn ei haelodau am y ffordd orau i ystyried eu cynrychiolaeth nhw a'u barn a symud ymlaen ar y rhain.
- Sicrhau fod WSEC yn gwneud ei chysylltiadau â grwpiau cynrychioladol rhanbarthol yn gliriach ac yn holi eu barn am y gynrychiolaeth.
- Sefydlu dull o symud yr agenda yn ei blaen, dylanwadu ar bolisi a gwireddu newid mewn gwneuthurwyr polisi.
- WSEC i drefnu cynhadledd menter gymdeithasol fawr bob dwy flynedd.

### 4. Hwyluso'r mynediad i gefnogaeth ac adnoddau dar gyferdarpar fentrau cymdeithasol, rhai newydd a rhai sy'n bodoli'n barod a bod yn borth gwybodaeth ac yn lle i gyrchu crebwyll busnes.

- Defnyddio'r rhwydweithiau, y mudiadau a'r aelodau presennol i helpu i sefydlu trosolwg o'r gefnogaeth, y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector.
- Sicrhau fod y cysylltiadau hyn ar gael i'r aelodau.
- Gweithio gyda phartneriaid i helpu i gysylltu mentrau cymdeithasol â chyflenwi gwasanaethau.
- WSEC i adnabod cynlluniau braenaru menter gymdeithasol a negydu eu rhan fel ffynonellau dysgu i eraill eu rhannu.
- WSEC i sefydlu cynllun mentora a hyfforddi cymheiriaid.
- WSEC i weithio gyda chyllidwyr i gyhoeddi a chydlynu'r holl ffynonellau buddsoddiad sydd ar gael i fentrau cymdeithasol.

**Ffynhonnell: Llythyr Dyfarnu Grant Llywodraeth Cymru 27 Ionawr 2010**

## Atodiad 3: Camau, Dangosyddion a chyflawniadau WSEC

|                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                           |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                           |
|                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                           |
| Recriwtio sail aelodaeth eang ac yna adolygu'r Aelodaeth gyfredol yn gyson a'r Strategaeth Aelodau Cyswllt a chyfleu unrhyw newidiadau. | Recriwtio 172 o aelodau a 10 Aelod Cyswllt.                                                                                                                                                                                                                         | 260 o aelodau<br>4 Aelod Cyswllt                                                                          |
|                                                                                                                                         | Cynnal adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Aelodau ac Aelodau Cyswllt, a sicrhau fod yr aelodau/aelodau cyswllt yn cael gwybod am newidiadau Ymgynghori a'r aelodau/aelodau cyswllt ar gynrychiolaeth y bwrdd yn flynyddol a thrafod y canfyddiadau ar lefel bwrdd. | Cytunwyd ar feini prawf aelodaeth WSEC gan fwrdd WSEC yn 2012<br><br>Penodwyd 7 ymarferwr a 6 o unigolion |
| Ethol y Bwrdd drwy sefydlu gweithdrefnau eglur ac amrywio cyfansoddiad y Bwrdd.                                                         | Sicrhau fod cynrychiolydd o Uned y Trydydd Sector/Is adran Menter yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod o'r bwrdd fel arsyllwr.                                                                                                                                         | Cyflawnwyd                                                                                                |
| Cytuno ar strwythur a swyddogaethau'r staff, penodi, hyfforddi a datblygu'r staff.                                                      | Sicrhau fod yr Uned y Trydydd Sector yn cael gwybod am unrhyw benodiadau staff newydd<br><br>Sicrhau fod calendr o ddigwyddiadau blynyddol yn cael ei gadw a'i ddosbarthu i aelodau/aelodau cyswllt.                                                                | Gweithredwyd<br><br>Calendr digwyddiadau ar y wefan                                                       |
| Dylunio'r offerynnau a'r systemau cyfathrebu.                                                                                           | Trefnu ffair fasnach WSEC flynyddol.<br><br>Trefnu diwrnod Menter Gymdeithasol blynyddol i ACau                                                                                                                                                                     | Cynhaliwyd Ffair Fasnach Nadolig WSEC yng Nghaerfyrddin 2011                                              |

|                                                                                                                                                                       | Trefnu cynhadledd menter gymdeithasol bob dwy flynedd ochr yn ochr â phartneriaid allweddol.                                                                                                                                              | Cynhadledd ar y Cyd mis Tachwedd 2011 gyda Chanolfan Gydwethredol Cymru.                                                                                                                              |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <i>Rhoi strategaeth marchnata a'r cyfryngau ar waith</i>                                                                                                              | Creu strategaeth cyfryngau a marchnata erbyn Ebrill 2011, gan ystyried gweithgareddau marchnata'r partneriaid.                                                                                                                            | Fod wedi'i chyflawni erbyn canol 2011<br>Nodwyd fel rhywbeth allweddol yn 2012                                                                                                                        |
| WSEC i hybu diwrnod menter gymdeithasol fel rhan o wythnos fenter mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a mudiadau'r trydydd sector fel rhan o'r ymgyrch ymwybyddiaeth | Hybu diwrnod menter gymdeithasol gyda 5 ysgol wahanol bob blwyddyn.<br><br>Hybu diwrnod menter gymdeithasol gyda 5 Coleg Addysg Bellach gwahanol bob blwyddyn.<br>Hybu diwrnod menter gymdeithasol gyda 2 brifysgol wahanol bob blwyddyn. | Cysylltu â Phanel Cynllun Gweithredu YES<br>CEO WSEC yn cynnal nifer o sesiynau mentora drwy Gynllun Mentora Dynamo<br><br>Cwrdd â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>Gweithio gyda'r Drindod Dewi Sant |
| WSEC i hyrwyddo cyflawniadau entrepreneuriaid ifanc lle bo modd mewn cyfleoedd gyda'r cyfryngau yn cynnwys y cylchgrawn <i>Trailblazers</i>                           | Anfon un erthygl bob chwe mis i'w chyhoeddi yn y cylchgrawn <i>Trailblazers</i> .                                                                                                                                                         | Noddwr ac un o brif bartneriaid Gwobrau Arwain Cymru<br><br>CEO cymryd rhan mewn gweithgareddau Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwobrau                                                                      |
| Sefydlu'r sianelau cyfathrebu gyda'r aelodau a dechrau ceisio barn ar faterion bras.                                                                                  | Cynnal cyfarfod fforwm aelodau bob chwe mis yng Ngogledd a De Cymru.                                                                                                                                                                      | Cynlluniwyd 15 Grŵp Ffocws yn 2012 – cynhaliwyd 6 gyda 55 o gyfranogwyr MG a 22 o fudiadau eraill                                                                                                     |
| Holi barn yr aelodau am y ffordd orau i ystyried eu cynrychiolaeth nhw a'u barn a symud ymlaen ar y rhain.                                                            | Llunio a chytuno ag aelodau ar ddull addas i holi barn.                                                                                                                                                                                   | <i>"Fel rhan o'i ymweliadau â MC Cymru a grwpiau ffocws, mae CEO WSEC yn parhau i goladu gwybodaeth gan yr aelodaeth gynyddol am y ffordd orau o holi barn, ymgynghori a hysbysu ei aelodau."</i>     |



|                                                                                                                                                      |                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                               |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                      | Sicrhau fod ymgynghori ag aelodau'n digwydd gyda'r dulliau y cytunwyd arnynt cyn unrhyw newid sylweddol ym mholisi WSEC. |                                                                                                                                                                                                                               |
| Sicrhau fod WSEC yn gwneud ei chysylltiadau â grwpiau cynrychioladol rhanbarthol yn gliriach ac yn holi eu barn am y gynrychiolaeth                  | Trefnu a chynnal cyfarfod blynyddol gyda phob grŵp cynrychioladol.                                                       | Yn bartner mewn rhwydweithiau menter gymdeithasol rhanbarthol yng ngogledd, de ddwyrain a de orllewin Cymru, dan arweiniad Canolfan Gydweithredol Cymru.                                                                      |
|                                                                                                                                                      | Trefnu cyfarfodydd chwarterol gyda chyrff menter gymdeithasol eraill y DU (hy SEC UK, SSEC a NI SEN).                    | Nifer o rwydweithiau rhanbarthol wedi ymuno ag WSEC fel aelodau<br><br>Staff WSEC yn cwrdd bob dwy flynedd â chydweithwyr o'r cyrff menter gymdeithasol eraill yn y DU i drafod datblygiadau'r sector a llefydd i gydweithio. |
|                                                                                                                                                      |                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                               |
| Defnyddio'r rhwydweithiau, y mudiadau a'r aelodau presennol i helpu i sefydlu trosolwg o'r gefnogaeth, y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector | Cynnal ymarfer mapio blynyddol o'r gefnogaeth, y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael i fentrau cymdeithasol.                | Mae'r ymarfer mapio yn broses sy'n mynd rhagddi.                                                                                                                                                                              |
| Sicrhau fod y cysylltiadau hyn ar gael i'r aelodau                                                                                                   | Rhoi manylion y gefnogaeth, y cyllid a'r adnoddau ar y rhynggrwyd a sicrhau fod y safle'n cael ei ddiweddarau            | Caiff gwefan WSEC ei diweddarau'n aml<br><br>Mae WSEC yn bwriadu gweithio gyda Travers Merrill ar gyfeirlyfr o opsiynau cyllid                                                                                                |
|                                                                                                                                                      | Darparu a chynnal llinell ffôn arbennig i ymholiadau                                                                     | Mae rhif swyddfa WSEC yn y llenyddiaeth                                                                                                                                                                                       |
| Gweithio gyda phartneriaid i helpu i gysylltu mentrau cymdeithasol â chyflenwi gwasanaethau.                                                         | Trefnu cyfarfod bob chwe mis gyda phartneriaid i sicrhau cysondeb y neges                                                | Cydweithredu a thrafod yn rheolaidd ond dim rhaglen o gyfarfodydd 6 misol wedi'i chynllunio                                                                                                                                   |

WSEC i adnabod cynlluniau braenaru menter gymdeithasol  
a negydu eu rhan fel ffynonellau dysgu i eraill eu rhannu

WSEC i sefydlu cynllun mentora a hyfforddi cymheiriaid

*“Wrth i Brif Weithredwr WSEC barhau â’i  
ymweliadau â mentrau cymdeithasol  
Cymru, bydd y “llwybrau braenaru” hynny’n  
parhau i gael eu hadnabod.”*

Bwriadu WSEC adeiladu “banc” o fentoriaid  
posibl a chyfarwyddwyr anweithredol.